

DOGFENNAU SY'N MYND GYDA'R BIL
Caiff Nodiadau Esboniadol a Memorandwm Esboniadol eu hargraffu ar wahân.

Bil Bwyd (Cymru)

[DRAFFT]

CYNNWYS

Nodau bwyd

- 1 Dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i hyrwyddo nodau bwyd
- 2 Nod bwyd sylfaenol
- 3 Nodau bwyd eilaidd

Targedau bwyd

- 4 Dyletswydd i osod targedau ar gyfer nodau bwyd eilaidd
- 5 Proses ar gyfer gosod targedau
- 6 Dyletswyddau adrodd
- 7 Adolygu targedau

Comisiwn Bwyd Cymru

- 8 Comisiwn Bwyd Cymru
- 9 Amcan y Comisiwn
- 10 Swyddogaethau'r Comisiwn
- 11 Darpariaeth bellach ynghylch y Comisiwn

Strategaeth fwyd genedlaethol

- 12 Strategaeth fwyd genedlaethol
- 13 Gwneud strategaeth fwyd genedlaethol
- 14 Effaith strategaeth fwyd genedlaethol
- 15 Adrodd ar strategaeth fwyd genedlaethol
- 16 Adolygu a diwygio strategaeth fwyd genedlaethol

Cynlluniau bwyd lleol

- 17 Cynlluniau bwyd lleol
- 18 Gwneud cynlluniau bwyd lleol
- 19 Effaith cynlluniau bwyd lleol
- 20 Adrodd ar gynlluniau bwyd lleol
- 21 Adolygu a diwygio cynlluniau bwyd lleol

Cyffredinol

- 22 Ystyr corff cyhoeddus
- 23 Rheoliadau
- 24 Dehongli
- 25 Cychwyn
- 26 Enw byr

Atodlen 1 - Comisiwn bwyd cymru

Bil Bwyd (Cymru)

[DRAFFT]

Deddf gan Senedd Cymru i osod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus mewn cysylltiad â nodau bwyd, i osod targedau mewn cysylltiad â nodau bwyd, i sefydlu Comisiwn Bwyd Cymru, i wneud strategaeth fwyd genedlaethol a chynlluniau bwyd lleol yn ofynnol, ac at ddibenion cysylltiedig.

Gan ei fod wedi ei basio gan Senedd Cymru ac wedi derbyn cydsyniad Ei Mawrhydi, deddfir fel a ganlyn:

Nodau bwyd

1 Dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i hyrwyddo nodau bwyd

Rhaid i gyrff cyhoeddus gymryd camau rhesymol i hyrwyddo'r nod bwyd sylfaenol a'r nodau bwyd eilaidd.

2 Nod bwyd sylfaenol

Y nod bwyd sylfaenol yw darparu bwyd fforddiadwy, iach, ac sy'n gynaliadwy yn economaidd ac yn amgylcheddol i bobl Cymru.

3 Nodau bwyd eilaidd

(1) Mae'r nodau bwyd eilaidd wedi eu rhestru a'u disgrifio yn Nhabl 1.

TABL 1

Nod	Disgrifiad
Llesiant economaidd	Creu cyfleoedd economaidd newydd drwy hybu bwyd a gynhyrchir yn lleol. Hybu datblygiad economaidd, cymdeithasol a chymunedol cynaliadwy. Annog cysylltiadau gwell rhwng cynhyrchwyr bwyd a defnyddwyr.
Iechyd a chymdeithasol	Lleihau diffyg maeth, tlodi bwyd a diffyg diogeledd bwyd. Lleihau gordewdra.
Addysg	Cynyddu ansawdd a hygyrchedd darpariaeth addysgol ar faterion sy'n ymwneud â bwyd.
Yr amgylchedd	Lleihau effeithiau amgylcheddol cynhyrchu a bwyta bwyd.
Gwastraff bwyd	Lleihau gwastraff bwyd gan gynhyrchwyr bwyd a defnyddwyr.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddiwygio'r disgrifiad o nod bwyd eilaidd yn Nhabl 1.

(3) Cyn gwneud rheoliadau sy'n diwygio Tabl 1, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â Chomisiwn Bwyd Cymru.

*Targedau bwyd***4 Dyletswydd i osod targedau ar gyfer nodau bwyd eilaidd**

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, osod un neu ragor o dargedau ar gyfer pob nod bwyd eilaidd.
- (2) Rhaid i darged bennu –
 - (a) safon i'w chyrraedd, y mae'n rhaid bod modd ei mesur yn wrthrychol, a
 - (b) dyddiad erbyn pryd y mae i'w chyflawni.
- (3) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch sut y mae'r mater y gosodir targed mewn cysylltiad ag ef i'w fesur.
- (4) Gosodir targed i ddechrau pan ddaw'r rheoliadau sy'n ei osod i rym.
- (5) Rhaid i'r rheoliadau cyntaf sy'n gosod un neu ragor o dargedau ar gyfer pob nod bwyd eilaidd gael eu gwneud o fewn 2 flynedd i'r adran hon ddod i rym.

5 Proses ar gyfer gosod targedau

- (1) Cyn gwneud rheoliadau o dan adran 4, rhaid i Weinidogion Cymru geisio cyngor –
 - (a) gan Gomisiwn Bwyd Cymru, a
 - (b) gan bersonau eraill y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn annibynnol a bod ganddynt arbenigedd perthnasol.
- (2) Cyn gwneud rheoliadau sy'n gosod neu'n diwygio targed, rhaid i Weinidogion Cymru fod yn fodlon y gellir cyflawni'r targed, neu'r targed diwygiedig.

6 Dyletswyddau adrodd

- (1) Rhaid i reoliadau o dan adran 4 bennu dyddiad adrodd ar gyfer unrhyw darged a osodir.
- (2) Ar neu cyn y dyddiad adrodd, rhaid i Weinidogion Cymru osod gerbron Senedd Cymru, a chyhoeddi, datganiad yn nodi –
 - (a) bod y targed wedi ei gyflawni, neu
 - (b) nad yw'r targed wedi ei gyflawni.
- (3) Os na chyflawnwyd y targed, rhaid i'r datganiad –
 - (a) esbonio pam nad yw'r targed wedi ei gyflawni, a
 - (b) nodi'r camau y mae Gweinidogion Cymru wedi eu cymryd, neu'n bwriadu eu cymryd, i sicrhau bod y targed yn cael ei gyflawni cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

7 Adolygu targedau

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru adolygu'r targedau yn unol â'r adran hon.
- (2) Diben yr adolygiad yw ystyried a fyddai cyflawni'r targed yn cyfrannu'n sylweddol at y nod bwyd sylfaenol.
- (3) Wrth gynnal yr adolygiad, rhaid i Weinidogion Cymru geisio cyngor gan Gomisiwn Bwyd Cymru.

- (4) Ar ôl cynnal yr adolygiad, rhaid i Weinidogion Cymru osod gerbron Senedd Cymru, a chyhoeddi, adroddiad yn nodi –
 - (a) a yw Gweinidogion Cymru yn ystyried y byddai cyflawni'r targed yn cyfrannu'n sylweddol at y nod bwyd sylfaenol, a
 - (b) os yw Gweinidogion Cymru yn ystyried na fyddai'n cyfrannu'n sylweddol at y nod hwnnw, y camau y maent yn bwriadu eu cymryd mewn perthynas â'r pwerau yn adran 4 i sicrhau bod hyn yn digwydd.
- (5) Rhaid cwblhau'r adolygiad cyntaf o fewn 5 mlynedd i'r adran hon ddod i rym.
- (6) Rhaid cwblhau adolygiadau dilynol o fewn 5 mlynedd i gwblhau'r adolygiad blaenorol.
- (7) Cwblheir adolygiad pan fydd Gweinidogion Cymru wedi gosod a chyhoeddi'r adroddiad.

Comisiwn Bwyd Cymru

8 Comisiwn Bwyd Cymru

Mae corff corfforedig o'r enw Comisiwn Bwyd Cymru neu Welsh Food Commission (y cyfeirir ato yn y Ddeddf hon fel "y Comisiwn") wedi ei sefydlu.

9 Amcan y Comisiwn

Amcan y Comisiwn yw hybu a hwyluso –

- (a) hyrwyddo'r nodau bwyd sylfaenol ac eilaidd gan gyrrff cyhoeddus, a
- (b) cyflawni'r targedau bwyd.

10 Swyddogaethau'r Comisiwn

Swyddogaethau'r Comisiwn yw –

- (a) datblygu, a chynorthwyo cyrff cyhoeddus i ddatblygu, polisiau mewn perthynas â materion bwyd;
- (b) cynghori, hysbysu a chynorthwyo cyrff cyhoeddus, a phersonau eraill, mewn perthynas â materion bwyd;
- (c) rhoi gwybodaeth ddigonol i'r cyhoedd am faterion sy'n effeithio'n sylweddol ar eu gallu i wneud penderfyniadau gwybodus am faterion bwyd, a rhoi cyngor iddynt mewn perthynas â'r materion hynny;
- (d) darparu trosolwg ac adolygiad o berfformiad y gwaith o arfer swyddogaethau cyrff cyhoeddus mewn perthynas â'r nodau bwyd a'r targedau bwyd;
- (e) craffu ar y strategaeth fwyd genedlaethol a chynlluniau bwyd lleol;
- (f) gweithredu fel ymgynghorai i Weinidogion Cymru pan fydd y nodau bwyd i gael eu diwygio;
- (g) rhoi cyngor i Weinidogion Cymru wrth iddynt adolygu targedau bwyd.

11 Darpariaeth bellach ynghylch y Comisiwn

Mae'r Atodlen yn gwneud darpariaeth bellach ynghylch y Comisiwn.

*Strategaeth fwyd genedlaethol***12 Strategaeth fwyd genedlaethol**

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru osod gerbron Senedd Cymru, a chyhoeddi, strategaeth fwyd genedlaethol.
- (2) Rhaid cydymffurfio ag is-adran (1) o fewn 2 flynedd i'r adran hon ddod i rym.
- (3) Rhaid i'r strategaeth fwyd genedlaethol nodi'r strategaeth gyffredinol a'r polisiau unigol y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu eu dilyn er mwyn –
 - (a) hyrwyddo'r nodau bwyd sylfaenol ac eilaidd, a
 - (b) cyflawni'r targedau bwyd.

13 Gwneud strategaeth fwyd genedlaethol

- (1) Cyn gwneud y strategaeth fwyd genedlaethol –
 - (a) rhaid i Weinidogion Cymru geisio cyngor y Comisiwn, a
 - (b) caiff Gweinidogion Cymru geisio cyngor Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ar sut i gysoni'r strategaeth â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, o fewn ystyr Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (dccc 2).
- (2) Cyn gwneud y strategaeth fwyd genedlaethol, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r canlynol –
 - (a) personau y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn annibynnol a bod ganddynt arbenigedd perthnasol, a
 - (b) unrhyw bersonau eraill y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol.
- (3) Wrth wneud y strategaeth fwyd genedlaethol, rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw –
 - (a) i Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig, yn enwedig Nodau 1 a 2,
 - (b) i Erthygl 11 (i'r graddau y mae'n ymwneud â bwyd digonol) o'r Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol,
 - (c) i Erthygl 24(2)(c) (i'r graddau y mae'n ymwneud â darparu bwydydd maethlon digonol) o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn,
 - (d) i Erthygl 27(1) a (3) (i'r graddau y mae'n ymwneud â maeth) o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn,
 - (e) i Erthygl 12(2) (i'r graddau y mae'n ymwneud â maeth digonol yn ystod beichiogrwydd a llaetha) o'r Confensiwn ar Ddileu Pob Math o Wahaniaethu yn Erbyn Menywod, ac
 - (f) i unrhyw offerynnau rhyngwladol eraill, neu rannau o offerynnau rhyngwladol, y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol.
- (4) Yn yr adran hon –

ystyr "y Confensiwn ar Ddileu Pob Math o Wahaniaethu yn Erbyn Menywod" yw'r Confensiwn ar Ddileu Pob Math o Wahaniaethu yn Erbyn Menywod a fabwysiadwyd ac a agorwyd i'w lofnodi, ei gadarnhau a'i gytuno gan benderfyniad y Cynulliad Cyffredinol 34/180 dyddiedig 18 Rhagfyr 1979;

ystyr “y Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol” yw’r Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol a fabwysiadwyd ac a agorwyd i’w lofnodi, ei gadarnhau a’i gytuno gan benderfyniad y Cynulliad Cyffredinol 2200A (XXI) dyddiedig 16 Rhagfyr 1966.

ystyr “Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn” yw Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn a fabwysiadwyd ac a agorwyd i’w lofnodi, ei gadarnhau a’i gytuno gan benderfyniad y Cynulliad Cyffredinol 44/25 dyddiedig 20 Tachwedd 1989;

14 Effaith strategaeth fwyd genedlaethol

Rhaid i gyrrff cyhoeddus, wrth arfer swyddogaethau sy’n ymwneud â’r nod bwyd sylfaenol, y nodau bwyd eilaidd, a’r targedau bwyd, roi sylw i’r strategaeth fwyd genedlaethol.

15 Adrodd ar strategaeth fwyd genedlaethol

- (1) Cyn gynted ag y bo’n ymarferol ar ôl diwedd pob cyfnod adrodd, rhaid i Weinidogion Cymru osod gerbron Senedd Cymru, a chyhoeddi, adroddiad yn asesu effeithiolrwydd y strategaeth fwyd genedlaethol, ac yn benodol, nodi’r cyfraniad y mae wedi ei gwneud tuag at—
 - (a) hyrwyddo’r nodau bwyd sylfaenol ac eilaidd, a
 - (b) cyflawni’r targedau bwyd.
- (2) Cyn gwneud yr adroddiad hwn, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â’r Comisiwn.
- (3) Yn yr adran hon ystyr “cyfnod adrodd” yw —
 - (a) y cyfnod o 2 flynedd sy’n dechrau â’r diwrnod y cyhoeddir y strategaeth gyntaf, a
 - (b) pob cyfnod dilynol o 2 flynedd.

16 Adolygu a diwygio strategaeth fwyd genedlaethol

- (1) Cyn diwedd—
 - (a) y cyfnod o 5 mlynedd sy’n dechrau â’r diwrnod y cyhoeddir y strategaeth gyntaf, a
 - (b) pob cyfnod dilynol o 5 mlynedd,rhaid i Weinidogion Cymru adolygu’r strategaeth fwyd genedlaethol.
- (2) Yn dilyn adolygiad, rhaid i Weinidogion Cymru ddiwygio’r strategaeth fel y maent yn ystyried yn briodol.
- (3) Mae adrannau 12(3) a 13 yn gymwys mewn perthynas â diwygio’r strategaeth fel y maent yn gymwys mewn perthynas â gwneud y strategaeth yn y lle cyntaf.

Cynlluniau bwyd lleol

17 Cynlluniau bwyd lleol

- (1) Rhaid i bob corff cyhoeddus (ac eithrio Gweinidogion Cymru) wneud a chyhoeddi cynllun bwyd lleol.

- (2) Rhaid cydymffurfio ag is-adran (1) o fewn 2 flynedd i'r adran hon ddod i rym.
- (3) Rhaid i gynllun bwyd lleol nodi'r polisiau y mae'r corff cyhoeddus yn bwriadu eu dilyn er mwyn cyfrannu –
 - (a) at hyrwyddo'r nodau bwyd sylfaenol ac eilaidd, a
 - (b) at cyflawni'r targedau bwyd.

18 Gwneud cynlluniau bwyd lleol

- (1) Cyn gwneud cynllun bwyd lleol, caiff corff cyhoeddus ymgynghori â'r canlynol –
 - (a) y Comisiwn,
 - (b) Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, ac
 - (c) unrhyw bersonau eraill y mae'r corff cyhoeddus yn ystyried eu bod yn briodol.
- (2) Wrth wneud cynllun bwyd lleol, rhaid i gorff cyhoeddus roi sylw i'r strategaeth fwyd genedlaethol.

19 Effaith cynlluniau bwyd lleol

Rhaid i gorff cyhoeddus, wrth arfer swyddogaethau sy'n ymwneud â'r nod bwyd sylfaenol, y nodau bwyd eilaidd, a'r targedau bwyd, roi sylw i'w gynllun bwyd lleol.

20 Adrodd ar gynlluniau bwyd lleol

- (1) Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl diwedd pob cyfnod adrodd, rhaid i gorff cyhoeddus gyhoeddi adroddiad yn asesu effeithiolrwydd ei gynllun bwyd lleol, ac yn benodol, y cyfraniad y mae wedi ei wneud tuag at –
 - (a) hyrwyddo'r nod bwyd sylfaenol a'r nodau bwyd eilaidd, a
 - (b) cyflawni'r targedau bwyd.
- (2) Cyn gwneud yr adroddiad hwn, rhaid i'r corff cyhoeddus ymgynghori â'r Comisiwn.
- (3) Yn yr adran hon ystyr "cyfnod adrodd" yw –
 - (a) y cyfnod o 2 flynedd sy'n dechrau â'r diwrnod y cyhoeddir y cynllun gyntaf gan y corff hwnnw, a
 - (b) pob cyfnod dilynol o 2 flynedd.

21 Adolygu a diwygio cynlluniau bwyd lleol

- (1) Cyn diwedd –
 - (a) y cyfnod o 5 mlynedd sy'n dechrau â'r diwrnod y cyhoeddir y cynllun cyntaf gan gorff cyhoeddus, a
 - (b) pob cyfnod dilynol o 5 mlynedd,

rhaid i'r corff cyhoeddus hwnnw adolygu ei gynllun bwyd lleol.
- (2) Yn dilyn adolygiad, rhaid i'r corff cyhoeddus ddiwygio'r cynllun fel y mae'n ystyried yn briodol.
- (3) Mae adrannau 17(3) a 18 yn gymwys mewn perthynas â diwygio'r cynllun fel y maent yn gymwys mewn perthynas â llunio'r cynllun yn y lle cyntaf.

*Cyffredinol***22 Ystyr corff cyhoeddus**

- (1) At ddibenion y Ddeddf hon, mae pob un o'r personau a ganlyn yn "corff cyhoeddus" –
 - (a) Gweinidogion Cymru;
 - (b) awdurdod lleol;
 - (c) Bwrdd Iechyd Lleol.
- (2) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ddiwygio is-adran (1) drwy –
 - (a) ychwanegu person,
 - (b) dileu person, neu
 - (c) diwygio'r disgrifiad o berson.
- (3) Ond ni chaiff y rheoliadau ychwanegu person ond os yw'r person hwnnw yn arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus.
- (4) Os yw'r rheoliadau yn ychwanegu person sydd â swyddogaethau o natur gyhoeddus a swyddogaethau eraill, nid yw'r Ddeddf hon ond yn gymwys i'r person hwnnw mewn perthynas â'r swyddogaethau hynny sydd ganddo o natur gyhoeddus.
- (5) Cyn gwneud rheoliadau, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r canlynol –
 - (a) y Comisiwn;
 - (b) os yw'r rheoliadau yn ychwanegu person, y person hwnnw;
 - (c) unrhyw berson arall y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei fod yn briodol.
- (6) Yn y Ddeddf hon –

ystyr "awdurdod lleol" ("local authority") yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru;

ystyr "Bwrdd Iechyd Lleol" ("Local Health Board") yw Bwrdd Iechyd Lleol a sefydlwyd o dan adran 11 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (p. 42).

23 Rheoliadau

- (1) Mae pŵer i wneud rheoliadau o dan y Ddeddf hon –
 - (a) yn arferadwy drwy offeryn statudol, a
 - (b) yn cynnwys pŵer i wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol.
- (2) Ni chaniateir gwneud offeryn statudol oni bai bod drafft o'r offeryn wedi ei osod gerbron Senedd Cymru a'i gymeradwyo drwy benderfyniad ganddi.

24 Dehongli

Yn y Ddeddf hon –

- ystyr "y Comisiwn" ("the Commission") yw Comisiwn Bwyd Cymru;
- ystyr "targedau bwyd" ("food targets") yw'r targedau a osodir mewn rheoliadau a wneir o dan adran 4.

25 Cychwyn

Daw'r Ddeddf hon i rym ar ddiwedd y cyfnod o 3 mis ar ôl y dyddiad y caiff y Ddeddf hon y Cydsyniad Brenhinol.

26 Enw byr

Enw byr y Ddeddf hon yw Deddf Bwyd (Cymru) 2023.

ATODLEN 1
(a gyflwynir gan adran 11)

COMISIWN BWYD CYMRU

RHAN 1

STATWS

Statws

- 1 (1) Nid yw'r Comisiwn i'w ystyried yn was nac yn asiant i'r Goron nac ychwaith i'w ystyried yn mwynhau unrhyw statws, imiwnedd na braint sydd gan y Goron.
- (2) Nid yw eiddo'r Comisiwn i'w ystyried yn eiddo i'r Goron nac yn eiddo a ddelir ar ei rhan.

RHAN 2

AELODAETH

Aelodaeth

- 2 (1) Bydd y Comisiwn yn cynnwys –
 - (a) cadeirydd;
 - (b) dim llai na 5 aelod a dim mwy na 7 aelod arall.
- (2) Caiff Gweinidogion Cymru bennu'r telerau aelodaeth, yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Atodlen hon.

Penodi aelodau

- 3 (1) Mae'r cadeirydd i'w benodi gan Weinidogion Cymru.
- (2) Cyn penodi'r cadeirydd, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â Senedd Cymru.
- (3) Mae'r aelodau eraill i'w penodi gan Weinidogion Cymru.
- (4) Cyn penodi'r aelodau eraill, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r canlynol –
 - (a) y cadeirydd, a
 - (b) Senedd Cymru.
- (5) Wrth benodi unigolyn, rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i ddymunoldeb sicrhau bod gan aelodau ystod o sgiliau a phrofiadau.
- (6) Uchafswm y cyfnod aelodaeth yw 5 mlynedd.
- (7) Caniateir ailbenodi unigolyn yn aelod unwaith.

Anghymhwysu

- 4 (1) Ni chaniateir penodi unigolyn yn aelod os yw'r unigolyn wedi ei anghymhwysu ar unrhyw un neu ragor o'r seiliau a bennir yn is-baragraff (3).

- (2) Mae unigolyn yn peidio â bod yn aelod os yw'r unigolyn wedi ei anghymhwysu ar unrhyw un neu ragor o'r seiliau a bennir yn is-baragraff (3).
- (3) Mae unigolyn wedi ei anghymhwysu rhag bod yn aelod os yw'r unigolyn –
 - (a) yn Aelod o Senedd Cymru;
 - (b) yn Aelod o Dŷ'r Cyffredin neu Dŷ'r Arglwyddi;
 - (c) yn Aelod o Senedd yr Alban;
 - (d) yn Aelod o Gynulliad Gogledd Iwerddon;
 - (e) yn aelod o awdurdod lleol neu gyngor cymuned;
 - (f) yn aelod o Fwrdd Iechyd Lleol;
 - (g) yn aelod o staff y Comisiwn;
 - (h) yn ddeiliad swydd y caniateir penodi person iddi, neu y caniateir ei argymhell neu ei enwebu i'w benodi iddi, gan neu ar ran –
 - (i) y Goron,
 - (ii) Senedd Cymru, neu
 - (iii) Comisiwn y Senedd.

Terfynu aelodaeth

- 5 (1) Caiff unigolyn ymddiswyddo o'i aelodaeth drwy roi dim llai na 3 mis o hysbysiad yn ysgrifenedig i Weinidogion Cymru o'i fwriad i wneud hynny.
- (2) Caiff Gweinidogion Cymru ddiswyddo unigolyn fel aelod os ydynt wedi eu bodloni bod yr unigolyn –
 - (a) yn fethdalwr nad yw wedi ei ryddhau, neu
 - (b) yn anaddas i barhau i fod yn aelod.

Tâl, lwfansau a phensiynau

- 6 (1) Caiff Gweinidogion Cymru dalu tâl i aelodau'r Comisiwn.
- (2) Caiff Gweinidogion Cymru dalu lwfansau (gan gynnwys lwfansau teithio a chynhaliaeth) ac arian rhodd i aelodau'r Comisiwn.
- (3) Caiff Gweinidogion Cymru dalu –
 - (a) pensiynau i unigolion, neu mewn cysylltiad ag unigolion, a fu'n aelodau o'r Comisiwn, a
 - (b) symiau ar gyfer neu tuag at ddarparu pensiynau i unigolion, neu mewn cysylltiad ag unigolion, a fu'n aelodau o'r Comisiwn.
- (4) Yn Atodlen 1 i Ddeddf Blwydd-daliadau 1972 (p.11) (swyddi etc y mae adran 1 o'r Ddeddf honno yn gymwys iddynt) yn y rhestr o "Royal Commissions and other Commissions" yn y lle priodol mewnosoder –

"The Welsh Food Commission".

RHAN 3

MATERION GWEITHREDOL

Dilysrwydd gweithredoedd

- 7 Nid effeithir ar ddilysrwydd unrhyw beth a wneir gan y Comisiwn neu ei bwyllgorau gan –
- (a) swydd wag aelod,
 - (b) diffyg ym mhenodiad aelod, neu
 - (c) aelodaeth person a ddaeth i ben o dan baragraff 4 neu 5.

Staff

- 8 (1) Caiff y Comisiwn benodi'r staff hynny y mae'n eu hystyried yn briodol mewn cysylltiad ag arfer ei swyddogaethau.
- (2) Caiff y Comisiwn dalu tâl i aelodau o staff.
- (3) Caiff y Comisiwn dalu lwfansau (gan gynnwys lwfansau teithio a chynhaliaeth) ac arian rhodd i aelodau o staff.
- (4) Caiff y Comisiwn dalu –
- (a) pensiynau i bersonau, neu mewn cysylltiad â phersonau, a fu'n aelodau o staff, a
 - (b) symiau ar gyfer darparu, neu tuag at ddarparu, pensiynau i bersonau, neu mewn cysylltiad â phersonau, a fu'n aelodau o staff.
- (5) Rhaid i'r Comisiwn gael cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru o ran –
- (a) nifer y staff y caniateir eu penodi;
 - (b) telerau ac amodau gwasanaeth y staff;
 - (c) unrhyw daliadau y caniateir eu gwneud o dan is-baragraffau (2) i (4).
- (6) Yn Atodlen 1 i Ddeddf Blwydd-daliadau 1972 (p.11) (swyddi etc y mae adran 1 o'r Ddeddf honno yn gymwys iddynt) yn y rhestr o "other bodies" yn y lle priodol mewnoder – "Employment as a member of the staff of the Welsh Food Commission".

Trafodion y Comisiwn

- 9 Mater i'r Comisiwn yw rheoleiddio ei weithdrefn (gan gynnwys unrhyw gworwm).

Pwyllgorau

- 10 (1) Caiff y Comisiwn sefydlu pwyllgorau.
- (2) Caiff pwyllgor gynnwys fel aelod unigolyn nad yw'n aelod o'r Comisiwn.
- (3) Mae gan yr unigolyn hwnnw hawl i –
- (a) unrhyw dâl a benderfynir gan y Comisiwn;
 - (b) unrhyw symiau a benderfynir gan y Comisiwn i ad-dalu neu ddigolledu'r unigolyn mewn perthynas â threuliau yr eir iddynt yn briodol wrth arfer swyddogaethau'r unigolyn.

- (4) Mater i'r Comisiwn yw talu unrhyw dâl a symiau eraill y mae gan yr unigolyn hwnnw hawl iddynt yn rhinwedd is-baragraff (3).
- (5) Mater i'r Comisiwn yw rheoleiddio gweithdrefn (gan gynnwys unrhyw gworwm) unrhyw bwyllgor a sefydlir ganddo.

Dirprwyo

- 11 (1) Caiff y Comisiwn awdurdodi arfer unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau gan –
 - (a) un (neu rai) o'i aelodau,
 - (b) pwyllgor a sefydlir ganddo, neu
 - (c) aelod o'i staff.
- (2) Caiff awdurdodiad at ddibenion y paragraff hwn fod yn gyffredinol neu'n gyfyngedig i arfer y swyddogaeth o dan amgylchiadau penodol.
- (3) Nid yw'r paragraff hwn yn effeithio ar gyfrifoldeb y Comisiwn am arfer ei swyddogaethau.

Taliadau gan Weinidogion Cymru

- 12 Caiff Gweinidogion Cymru dalu i'r Comisiwn y symiau, ar yr adegau ac ar y telerau (os oes telerau), sy'n briodol yn eu tyb hwy mewn cysylltiad â gwariant yr eir iddo wrth gyflawni swyddogaethau'r Comisiwn.

RHAN 4

CYNLLUNIAU, ADRODDIADAU, CYFRIFON, ETC.

Cynllun strategol

- 13 Cyn dechrau ail flwyddyn ariannol y Comisiwn, ac ar gyfer pob blwyddyn ariannol ddilynol, rhaid i'r Comisiwn –
 - (a) llunio cynllun o sut y mae'n bwriadu cyflawni ei swyddogaethau yn ystod y flwyddyn ariannol honno, a
 - (b) gosod copi o'r cynllun hwnnw gerbron Senedd Cymru.

Adroddiad blynyddol ac adroddiadau eraill

- 14 (1) Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol, rhaid i'r Comisiwn lunio a chyhoeddi adroddiad blynyddol ar arfer ei swyddogaethau yn ystod y flwyddyn ariannol honno.
- (2) Mater i'r Comisiwn yw penderfynu –
 - (a) cynnwys yr adroddiad blynyddol,
 - (b) ffurf adroddiad blynyddol, ac
 - (c) y dull cyhoeddi.
- (3) Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl cyhoeddi adroddiad blynyddol, rhaid i'r Comisiwn –
 - (a) anfon copi o'r adroddiad at Weinidogion Cymru;

- (b) gosod copi o'r adroddiad gerbron Senedd Cymru.
- (4) Caiff y Comisiwn osod copi o unrhyw adroddiad arall a luniwyd ganddo gerbron Senedd Cymru.

Swyddog cyfrifyddu

- 15
- (1) Cadeirydd y Comisiwn yw'r swyddog cyfrifyddu ar gyfer y Comisiwn.
 - (2) Mae gan y swyddog cyfrifyddu, o ran cyfrifon a chyllid y Comisiwn, y cyfrifoldebau a bennir o bryd i'w gilydd gan y Trysorlys.
 - (3) Yn y paragraff hwn mae cyfeiriadau at gyfrifoldebau yn cynnwys –
 - (a) cyfrifoldebau mewn perthynas â llofnodi cyfrifon;
 - (b) cyfrifoldebau am briodoldeb a rheoleidd-dra cyllid y Comisiwn;
 - (c) cyfrifoldeb am ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau'r Comisiwn.
 - (4) Mae'r cyfrifoldebau y caniateir eu pennu o dan y paragraff hwn yn cynnwys cyfrifoldebau sy'n ddyledus i'r canlynol –
 - (a) Senedd Cymru a Gweinidogion Cymru;
 - (b) Tŷ'r Cyffredin neu Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Tŷ hwnnw.
 - (5) Os gofynnir iddi wneud hynny gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin ("Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin"), caiff Senedd Cymru –
 - (a) cymryd tystiolaeth gan y swyddog cyfrifyddu ar ran Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin,
 - (b) cyflwyno adroddiad i Bwyllgor Tŷ'r Cyffredin ar y dystiolaeth a gymerwyd, ac
 - (c) trosglwyddo'r dystiolaeth a gymerwyd i Bwyllgor Tŷ'r Cyffredin.
 - (6) Mae adran 13 o Ddeddf Archwilio Cenedlaethol 1983 (p. 44) (dehongli cyfeiriadau at Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin) yn gymwys at ddibenion y paragraff hwn yn yr un modd ag y mae'n gymwys at ddibenion y Ddeddf honno.

Cyfrifon

- 16
- (1) Rhaid i'r Comisiwn –
 - (a) cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
 - (b) llunio cyfrifon mewn cysylltiad â phob blwyddyn ariannol yn unol â chyfarwyddydau a roddir, gyda chydysyniad y Trysorlys, gan Weinidogion Cymru.
 - (2) Mae'r cyfarwyddydau y caiff Gweinidogion Cymru eu rhoi o dan y paragraff hwn yn cynnwys cyfarwyddydau o ran –
 - (a) yr wybodaeth sydd i'w chynnwys yn y cyfrifon a'r modd y mae'r cyfrifon i gael eu cyflwyno;
 - (b) y dulliau a'r egwyddorion y mae'r cyfrifon i gael eu llunio yn unol â hwy;
 - (c) unrhyw wybodaeth ychwanegol sydd i fynd gyda'r cyfrifon.
 - (3) Caiff Gweinidogion Cymru amrywio neu ddirymu cyfarwyddyd y maent wedi ei roi o dan y paragraff hwn.

Archwilio

- 17 (1) Rhaid i'r Comisiwn gyflwyno'r cyfrifon a luniwyd ar gyfer blwyddyn ariannol i Archwilydd Cyffredinol Cymru heb fod yn hwyrach na 31 Awst yn y flwyddyn ariannol ganlynol.
- (2) Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol –
- (a) archwilio ac ardystio cyfrifon a gyflwynir o dan y paragraff hwn, ac adrodd arnynt, a
- (b) heb fod yn hwyrach na 4 mis ar ôl i'r cyfrifon gael eu cyflwyno, osod copi o'r cyfrifon ardystiedig a'r adroddiad arnynt gerbron Senedd Cymru.
- (3) Wrth archwilio cyfrifon a gyflwynir o dan y paragraff hwn, ni chaiff yr Archwilydd Cyffredinol ardystio'r cyfrifon cyn bodloni ei hun yr aethpwyd i'r gwariant y mae'r cyfrifon yn ymwneud ag ef yn gyfreithiol ac yn unol â'r awdurdod sy'n ei lywodraethu.

Archwilio'r defnydd o adnoddau

- 18 (1) Caiff Archwilydd Cyffredinol Cymru archwilio darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wnaed o adnoddau wrth gyflawni swyddogaethau'r Comisiwn.
- (2) Ond nid oes gan yr Archwilydd Cyffredinol yr hawl i gwestiynu teilyngdod amcanion polisi'r Comisiwn.
- (3) Cyn cynnal archwiliad o dan y paragraff hwn, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol –
- (a) ymgynghori â Senedd Cymru, a
- (b) ystyried barn Senedd Cymru o ran a ddylid cynnal archwiliad ai peidio.
- (4) Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol –
- (a) cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol, gyhoeddi adroddiad ar ganlyniadau archwiliad a gyflawnir o dan y paragraff hwn, a
- (b) gosod copi o'r adroddiad gerbron Senedd Cymru.

RHAN 5

AMRYWIOL

Diwygiadau canlyniadol

- 19 (1) Yn Neddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (p. 36), yn Rhan 6 o Atodlen 1 (cyrff cyhoeddus eraill: cyffredinol), yn y lle priodol mewnosoder "The Welsh Food Commission".
- (2) Yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) –
- (a) yn Atodlen 1A (anghymhwysio rhag bod yn aelod o'r Senedd neu'n ymgeisydd mewn etholiad i fod yn aelod o'r Senedd), yn Rhan 2, yn y Tabl, yn y lle priodol mewnosoder –

"Welsh Food Commission	The members of the Commission".
------------------------	---------------------------------

- (b) yn Atodlen 9A (awdurdodau Cymreig datganoledig), yn y lle priodol mewnosoder "The Welsh Food Commission or Comisiwn Bwyd Cymru."

- (3) Yn Rhan 2 o Atodlen 19 i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (p. 15) (awdurdodau cyhoeddus: awdurdodau Cymreig perthnasol), o dan y pennawd "other public authorities", yn y lle priodol mewnosoder "The Welsh Food Commission".
- (4) Yn Atodlen 6 i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (mccc 1) (cyrff cyhoeddus etc: safonau), o dan y pennawd "cyffredinol", yn y lle priodol mewnosoder –

"Comisiwn Bwyd Cymru ("The Welsh Food Commission")	Safonau cyflenwi gwasanaethau Safonau llunio polisi Safonau gweithredu Safonau cadw cofnodion".
--	--

- (5) Yn adran 6 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (dccc 2) (ystyr corff cyhoeddus) ar ôl is-adran (1)(l) mewnosoder –
- “(m) Comisiwn Bwyd Cymru.”
- (6) Yn Atodlen 3 i Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 (dccc 3) (awdurdodau rhestredig), o dan yr is-bennawd "Amrywiol", yn y lle priodol mewnosoder "Comisiwn Bwyd Cymru".